# Gwariant y Cynulliad a niferoedd staff

*02/08/2012*

**Cais am wybodaeth**

Diolch am eich cais a ddaeth i law ar 5 Gorffennaf, pan wnaethoch ofyn am y darnau o wybodaeth a ganlyn, ar gyfer pob un o'r pum mlynedd diwethaf.

**415 - 1) Faint o bobl a gaiff eu cyflogi gan y Cynulliad a) yn amser llawn b) yn rhan-amser**

| Staffio fel ar | Amser llawn | Rhan-amser | |
|---|---|---|---|
| | | Nifer | Cyfwerth ag amser llawn |
| 1 Ebrill2008 | 287 | 36 | 23.24 |
| 1 Ebrill2009 | 324 | 36 | 23.21 |
| 1 Ebrill2010 | 339 | 40 | 25.72 |
| 1 Ebrill2011 | 303 | 39 | 25.63 |
| 1 Ebrill2012 | 324 | 33 | 23.68 |

**415 – 2) Cost flynyddol y bil am ddeunydd ysgrifennu ?**

| **Gwariant blynyddol ar Ddeunydd Ysgrifennu ar gyfer y Comisiwn ac Aelodau'r Cynulliad** | |
|---|---|
| | Cyfanswm y gwariant |
| | £ |
| 2007-08 | 183,515.05 |
| 2008-09 | 191,462.51 |
| 2009-10 | 142,899.64 |
| 2010-11 | 79,033.63 |
| 2011-12 | 151,456.68 |
| Cyfanswm | 748,367.51 |

**415 - 3) Nifer y pecynnau o bapur a archebwyd?**

Nid oes gennym gofnodion ar nifer y pecynnau a gaiff eu harchebu ac ni chedwir gwybodaeth yn hyn o beth – gan y byddwn yn archebu amrywiaeth o bapur o ran maint a phwysau mewn pecynnau o feintiau a phwysau

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 20 821813
E-bost/Email:Alison.Rutherford@wales.gov.uk

gwahanol, felly rydym wedi nodi cyfanswm y pwysau o bapur a archebwyd mewn tunelli. Mae'r tabl isod yn nodi'r amrywiaeth o bapur a archebir gennym ac mae'n nodi cyfanswm pwysau'r papur hwn mewn tunelli.

| **Amrywiaeth y papur a ddefnyddir a meintiau'r pecynnau** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Caiff papur sydd dros 80gsm ei archebu fel SRA2 neu SRA3 a'i dorri i'r maint priodol | | | | |
| Maint | Pwysau | Gwneuthuriad | Taflenni ym mhob pecyn | Pwysau pob pecyn(kg) |
| A4 | 80gsm | 9Lives Office Extra | 500 | 2.5 |
| A4 | 80gsm | Papur lliw | 500 | 2.5 |
| A4 | 120gsm | Papur lliw | 250 | 1.9 |
| A4 | 160gsm | Papur lliw | 250 | 2.5 |
| A3 | 80gsm | 9Lives Office Extra | 500 | 5 |
| A3 | 80gsm | Papur lliw | 500 | 5 |
| SRA2 | 120gsm | 9Lives Offset | 250 | 8.8 |
| SRA2 | 200gsm | 9Lives Offset | 200 | 11.6 |
| SRA2 | 300gsm | 9Lives Offset | 100 | 8.55 |
| SRA2 | 350gsm | 9Lives Offset | 100 | 10.07 |

| **Defnydd** | | |
|---|---|---|
| **Blwyddyn** | **Cyfanswm y pecynnau** | **Cyfanswm y pwysau Kgs** |
| Ebrill2007-Mawrth 2008 | 4408 | 12559 |
| Ebrill2008 - Mawrth 2009 | 6523 | 17718.6 |
| Ebrill2009 - Mawrth 2010 | 6449 | 18715.15 |
| Ebrill2010 - Mawrth 2011 | 7852 | 22203.15 |
| Ebrill2011 - Mawrth 2012 | 4078 | 13374.2 |
| Ebrill2012 tan Gorffennaf 2012 | 757 | 2567.3 |

**415 - 4) Y swm a wariwyd ar ddyddiau cwrdd i ffwrdd, a lleoliad a hyd y cyfnodau hynny?**

Mae ein hymateb i gais blaenorol yn rhoi manylion am ddyddiau cwrdd i ffwrdd hyd at fis Medi 2009, a gellir gweld hwn o ddilyn y linc http://www.cynulliadcymru.org/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/disclosure-log-month-view.htm?act=dis&id=145892&ds=10/2009

Mae gwybodaeth sy'n ymwneud â chostau dyddiau cwrdd i ffwrdd ers mis Medi 2009 yn yr atodiad.

**415 - 5) Y swm a wariwyd ar gostau tacsis?**

| Gwariant blynyddol ar Dacsis ar gyfer y Comisiwn ac Aelodau'r Cynulliad | |
|---|---|
| | Cyfanswm y Gwariant |
| | £ |
| 2007-08 | 3,489.16 |
| 2008-09 | 12,862.12 |
| 2009-10 | 12,328.84 |
| 2010-11 | 9,975.57 |
| 2011-12 | 11,331.47 |
| Cyfanswm | 46,498.00 |

**415 - 6) Y swm a wariwyd ar blanhigion?**

| Swm a wariwyd ar blanhigion | | |
|---|---|---|
| | | £ |
| 2007-08 | | 0.00 |
| 2008-09 | | 0.00 |
| 2009-10 | Planhigion ar gyfer Derbynfa Tŷ Hywel | 174.52 |
| 2010-11 | | 0 |
| 2011-12 | Planhigion ar gyfer yr Oriel a chaffi newydd y Senedd, a theras y Senedd | 496.87 |

**415 - 7) Y swm a wariwyd ar logi ceir? Ac unrhyw ddirwyon am a) ddychwelyd y cerbyd yn hwyr b) am beidio rhoi digon o danwydd yn y cerbyd c) tocynnau parcio d) dirwyon am yrru'n rhy gyflym.**

| Swm a wariwyd ar geir wedi'u llogi | | |
|---|---|---|
| | Cyfanswm y gwariant | Gordal Tanwydd |
| | £ | £ |
| 2007-08 | 34,656.17 | 0.0 |
| 2008-09 | 41,542.14 | 0 |
| 2009-10 | 18,641.47 | 15.00 |
| 2010-11 | 14,986.03 | 35.00 |
| 2011-12 | 17,346.43 | 120.00 |
| Cyfanswm | 127,172.24 | 170.00 |

Newidiodd y rheolau ar geir wedi'u llogi ar gyfer Aelodau'r Cynulliad yn ystod Tymor yr Hydref 2009 ac roedd hyn yn deillio o argymhelliad a wnaed gan y Panel Adolygu Annibynnol. Mae Argymhelliad 92 yn nodi:

"Dylai Aelodau'r Cynulliad a'u staff roi'r gorau i logi ceir ac eithrio o dan amgylchiadau eithriadol."

Mae'r Canllawiau a ddarparwyd i Aelodau'r Cynulliad yn nodi:

"Dylai amgylchiadau eithriadol fod yn sefyllfaoedd prin ac na ellir eu rhagweld a phan nad oes unrhyw ddewis teithio arall ar gael. O dan amgylchiadau o'r fath, dylid llogi'r car am y cyfnod y mae ei angen yn unig ac yn dilyn cymeradwyaeth gan dîm Cymorth Busnes yr Aelodau."

Ni chodir unrhyw gostau hwyr ar y Cynulliad na dirwyon am ddychwelyd cerbydau'n hwyr. Pan fo busnes yn ei gwneud yn ofynnol i ymestyn y cyfnod llogi, y gyfradd gytundebol a godir arnom. Nid oedd dim gordaliadau tanwydd nes i ni newid ein cyflenwr ar ddiwedd 2009. Cynghorir pawb sy'n llogi cerbydau i ddychwelyd cerbydau gyda'r tanciau'n llawn. Os na fydd hyn yn digwydd, cynhwysir unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â llenwi â thanwydd yn y costau a ddarparwyd. Ni fu unrhyw gostau ar y Cynulliad am docynnau parcio na dirwyon am yrru'n rhy gyflym oherwydd cyfrifoldeb gyrrwr y cerbydau a fyddai hynny.

**415 - 8) Y swm a wariwyd ar Gelfyddyd, fesul darn a fesul lleoliad?**

Bydd yr ymateb yn dilyn.

**415 - 9) Llog ar gardiau credyd?**

Nid oedd dim costau llog ar gardiau credyd.

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn http://www.cynulliadcymru.org/abthome/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm .Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn.

Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Alison Rutherford**
**Y Cydgysylltydd Mynediad at Wybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Atodiad 1**

| Maes Gwasanaeth | Dyddiad | Hyd y cyfnod | Lleoliad | Cost | Amcanion/ pwnc y dydd |
|---|---|---|---|---|---|
| Y Cyfryngau a Chyhoeddiadau<br><br>Tîm Allgymorth Cymunedau | 23/10/2009<br><br>18/11/2009 | 1 Diwrnod<br><br>1 Diwrnod | Yr Eglwys Norwyeg<br><br>Crefft yn y Bae | £455.20<br><br>£310.30 | - Galluogi unigolion o dîm sydd newydd ei sefydlu, i ddysgu am gefndir, sgiliau proffesiynol ac arbenigedd aelodau eraill y tîm.<br>- Dadansoddi cyraeddiadau'r tîm hyn yma, ac asesu beth oedd yn gweithio'n dda a beth y gellid ei wella.<br>- Dadansoddi mentrau a oedd yn llai llwyddiannus ac asesu sut y mae modd osgoi methiannau o'r fath yn y dyfodol.<br>- Helpu'r tîm i ddod yn gyfarwydd â Chynllun Gwasanaeth y Maes. Cynllunio blaenoriaethau ac ystyried sut y byddwn yn cyfrannu at roi'r Cynllun ar waith.<br>- Defnyddio'r hyn a ddysgwyd yn ystod y dydd i lywio cynlluniau datblygiad proffesiynol a phersonol pob aelod o'r tîm (PMDR) |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfathrebu Allanol | | | Urdd Gobaith Cymru Llangrannog | £575.00 | Noder – ni chynhaliwyd y Diwrnod Cwrdd i Ffwrdd, oherwydd cafodd ei ganslo oherwydd yr eira |
| Cyfieithu | 14 a 15/04/2010 | 2 Ddiwrnod | HCE Adventure Ltd | £3240.00 | Ystyried ein pryderon gwreiddiol a'r hyn a gyflawnwyd gennym hyd yma.<br><br>Datblygu gweledigaeth o ran beth yr hoffem ei gyflawni fel Gwasanaeth.<br><br>Llunio cynllun gweithredu o ran sut y byddwn yn cyrraedd y nod.<br><br>Cael hwyl wrth ddysgu am weithio'n effeithiol fel rhan o dîm. |
| Gwasanaeth y Siambr a Deddfwriaeth | 24/5/2010 | 1 Diwrnod | Amgueddfa Genedlaethol Cymru | £849.00 | Nod gyffredinol y Diwrnod oedd adolygu, trafod a chynllunio'r gwaith a wneir gan y Gwasanaeth Siambr a Deddfwriaeth mewn modd strategol.<br><br>Roedd hyn yn cynnwys:<br><br>• Ymarferiad i ddatblygu'r tîm gan ddefnyddio ymarferiad Myer Briggs; |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | • Gweithgaredd i glywed syniadau ynghylch dull gweithredu'r tîm wrth drosglwyddo o'r Trydydd Cynulliad i'r Pedwerydd Cynulliad;<br>• Trafodaeth ar Gynllunio Gwasanaeth a rheoli risg;<br>• Trafodaeth ar rôl yr adran ym mhrosiect y Pedwerydd Cynulliad a'i chyfraniad i'r prosiect;<br>• Ymarferiad i adolygu ein prosesau a'n gweithdrefnau gweithio mewnol, nodi'r meysydd ar gyfer eu gwella a dod o hyd i atebion i fynd i'r afael â hwy. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Y Gwasanaethau Cyfreithiol | 26/7/2010 28/7/2010 | 1 Diwrnod | Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol | £258.44 | Galluogi'r tîm i ystyried y prif faterion a gafodd sylw gan y tîm dros y flwyddyn a aeth heibio a'r materion a fydd yn ein hwynebu'r flwyddyn nesaf, mewn awyrgylch anffurfiol. Cafwyd cymorth gan Aelod Cynulliad, a allai lywio'r drafodaeth drwy sôn am waith cyfreithiol y Cynulliad o safbwynt Aelod. |
| Yr Uned Gorfforaethol | 28/05/2010 | 1 Diwrnod | Bobath Cymru, Yr Eglwys Newydd Cyflenwyd y cinio gan Glwb y Lleng Brydeinig, yr Eglwys Newydd | £80.00 – 21 yn bresennol | Digwyddiad i ddatblygu'r tîm, gan gynnwys addurno a garddio er mwyn gwella'r cyfleusterau yng Nghanolfan Therapi Plant Bobath |
| Cymorth Busnes i'r Aelodau | 3/9/2010 | 1 Diwrnod | Crefft yn y Bae | £244.99 | Cynllunio prosiectau, a thrafodaeth ar gyfrifoldebau'r tîm yn dilyn ail-strwythuro o fewn y sefydliad. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Y Gwasanaethau Cyfreithiol | 19/7/2011 | 1 Diwrnod | Gerddi Dyffryn | £56.65 cinio | Galluogi'r tîm i ystyried y prif faterion y rhoddwyd sylw iddynt gan y tîm dros y flwyddyn a aeth heibio a'r materion a fydd yn ein hwynebu'r flwyddyn nesaf, mewn awyrgylch anffurfiol. Cafwyd cymorth gan Aelod Cynulliad, a allai lywio'r drafodaeth drwy sôn am waith cyfreithiol y Cynulliad o safbwynt Aelod. |
| 2011 – CAMS (Cymorth i'r Comisiwn ac i'r Aelodau) | 04/11/2011 | 1 Diwrnod | Y Pierhead, Bae Caerdydd Cyflenwyd cinio gan Kemi's Café, Bae Caerdydd | £105.60 – 16 yn bresennol | Materion y Cynulliad, sgiliau trefnu, rheoli amser, arweinyddiaeth, ymdopi â phwysau a datblygu tîm. |
| 2011 - Grŵp Adnoddau'r Cynulliad | 9 /11/2011 | 1 Diwrnod | Goleulong 2000 – elusen ym Mae Caerdydd | £112 | Grŵp Arweinyddiaeth Adnoddau (5 o staff uwch).<br>Cynllunio strategol ar gyfer y tri gwasanaeth, sef Adnoddau Dynol, Cyllid a Llywodraethu/Archwilio.<br>Effeithiolrwydd y tîm wrth wneud y defnydd gorau o swyddogaethau ehangach y Grŵp Adnoddau yn dilyn ail-strwythuro o fewn y sefydliad yn y Gwanwyn. |

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth yn gywir yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm.

Rhowch wybod i mi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

**Alison Rutherford**
**Y Cydgysylltydd Mynediad at Wybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**